# #DiolchIChi

Dathlu'r hyn y mae grant gan y Loteri Genedlaethol wedi'ch helpu cyflawni

**19 TACHWEDD - 17 RHAGFYR**

THE NATIONAL LOTTERY®

# CYMERWCH RAN MEWN
# #DiolchIChi



## Beth yw #DiolchIChi?

Bob tro mae rhywun yn chwarae'r Loteri Genedlaethol, maen nhw'n cyfrannu at achosion da ar draws y Deyrnas Unedig.

Dyna **£30 miliwn** sy'n mynd tuag at gymunedau lleol, treftadaeth, y celfyddydau a chwaraeon ar draws y Deyrnas Unedig, bob wythnos - ac rydym eisiau dathlu hynny.

Fel un o'r prosiectau sydd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol, rydych yn gwybod sut gall yr arian hwnnw wneud gwahaniaeth enfawr. Ac eto, nid yw llawer o bobl sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol bob amser yn deall yr effaith y maen nhw'n ei chael.

Mae **#DiolchIChi** yn gyfle i ymuno ag ymgyrch genedlaethol, hyrwyddo'ch prosiect a dweud diolch wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am y gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i'ch prosiect neu fudiad.

# SUT Y GALLWCH CHI GYMRYD RHAN GYDA #DiolchIChi

**Mae #DiolchIChi** yn ffordd gyflym a hwylus i fod yn rhan o ymgyrch genedlaethol am ddim ac yn gyfle gwych i arddangos y gwaith yr ydych chi a'ch prosiect wedi'i wneud.

## YMUNWCH Â'R SGWRS:

Gadewch i'r byd wybod beth mae'ch grant gan y Loteri Genedlaethol wedi'ch helpu i gyflawni trwy gydol y flwyddyn a diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth.

Gallwch gymryd rhan trwy rannu lluniau, storïau a chyflawniadau'ch prosiect trwy eich gwefan, cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol, a thrwy ddweud diolch syml i'r bobl sydd wedi'i wneud yn bosib - chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

## DYMA YCHYDIG SYNIADAU AM SUT GALLWCHGEFNOGI #DiolchIChi:

### CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rhannwch eich syniadau a'ch ffeithiau eich hun sy'n adrodd stori'r hyn y mae grantiau'r Loteri Genedlaethol wedi'i wneud yn bosib a dweud diolch wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth - defnyddiwch yr hashnod #DiolchIChi i fod yn rhan o'r sgwrs (rydym wedi rhoi nifer o dempledi at ei gilydd i helpu ysgogi'ch meddwl).

### CYFRYNGAU LLEOL

Lluniwch ddatganiad i'r wasg a rhowch wybod i'ch cyfyngau lleol sut mae grant gan y Loteri Genedlaethol wedi effeithio ar eich prosiect eleni.

# DYDDIADAU ALLWEDDOL
# #DiolchIChi



**Cynhelir #DiolchIChi** rhwng **19 Tach a 17 Rhag**, ond bydd pob un o ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol yn defnyddio un wythnos i weiddi eu negeseuon yn uchel, felly beth am alinio eich 'DiolchIChi' gyda miloedd o brosiectau eraill fel eich un chi.

| CELFYDDYDAU: 19 – 26 Tachwedd | CYMUNED: 27 Tachwedd – 3 Rhagfyr | CHWARAEON: 4 – 10 Rhagfyr | TREFTADAETH: 11 – 17 Rhagfyr |
|---|---|---|---|
| • Cyngor Celfddyau Lloegr<br>• Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon<br>• Creative Scotland<br>• Cyngor Celfyddydau Cymru<br>• Sefydliad Ffilm Prydain | • Cronfa Loteri Fawr | • Sport England<br>• Sport Scotland<br>• Chwaraeon Cymru<br>• Sport NI<br>• UK Sport | • Cronfa Dreftadaeth y Loteri |

# PECYN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

# #DiolchIChi

Mae cyfryngau cymdeithasol yn ddull gwych o arddangos yr hyn rydych wedi'i gyflawni gyda chymorth eich grant gan y Loteri Genedlaethol. Rhannwch luniau, fideos a storïau o'ch prosiect neu fudiad a pheidiwch anghofio defnyddio'r hashnod **#DiolchIChi.**

# SYNIADAU AR GYFER POSTIADAU
# #DiolchIChi

Hoffem yn fawr i chi ddweud diolch wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn eich geiriau a lluniau eich hun o'r hyn y mae'ch grant wedi'ch helpu cyflawni ond os ydych eisiau ychydig o gymorth, dyma rai awgrymiadau:

- Eleni rydym wedi helpu gwneud gwahaniaeth yn ein cymuned, felly **#DiolchIChi** i chi - chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol
- Rydym yn un o filoedd o brosiectau a ariannwyd gyda chefnogaeth gennych chi. **#DiolchIChi** am chwarae'r #LoteriGenedlaethol
- Mae chwarae'r #LoteriGenedlaethol yn ei gwneud yn bosib. **#DiolchIChi** am helpu ni adeiladu a thyfu ein cymuned
- **#DiolchIChi**, rydym yn un o filoedd o achosion da sydd wedi derbyn grant gan y #LoteriGenedlaethol
- Rydym yn dathlu cefnogaeth y cyhoedd trwy chwarae'r #LoteriGenedlaethol. **DiolchIChi** am gefnogi ein prosiect
- Nid oes neb wedi gwneud mwy i gefnogi achosion da yn y Deyrnas Unedig na chi, chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol. **#DiolchIChi** am ariannu ein prosiect

## SUT I DDEFNYDDIO EIN HASEDAU

# #DiolchIChi

## Llun Clawr Facebook

Rhowch wybod i chwaraewyr am y gwahaniaeth enfawr y maent wedi'i wneud i'ch prosiect neu fudiad.

Trwy ddefnyddio'r llun clawr #DiolchIChi ar Facebook, byddwch yn gwneud datganiad pwerus i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, gan ddangos cymaint rydych yn gwerthfawrogi eu cymorth.

Gallwch ddod o hyd i hwn ac adnoddau gwych eraill yn y **ffolder adnoddau** ynghlwm.




### CYMORTH DEFNYDDIOL:

- Gwnewch yn siŵr bod hwn yn cael ei lwytho i fyny fel 'llun clawr', i'ch cyfrif Facebook.

**FFORMATAU:**
**Llun_Clawr_acebook_851x312**

# SUT I DDEFNYDDIO EIN HASEDAU
# #DiolchIChi

## Fframiau Cyfryngau Cymdeithasol

Yn y ffolder adnoddau fe welwch fframiau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain wedi'u dylunio i'ch helpu arddangos y pethau anhygoel rydych wedi'u cyflawni eleni.

Rhowch y ffrâm dros eich lluniau ariannu gan ddefnyddio pecyn golygu lluniau fel Photoshop. Wedyn postiwch ar ein llinell amser.

### CYMORTH DEFNYDDIOL:

- Gwnewch yn siŵr fod unrhyw ddelweddau'n llenwi'r ffrâm gyfan, heb adael unrhyw le gwag.

- Os na allwch olygu'r fframiau hyn, mae croeso i chi ddefnyddio un o'r asedau eraill.




**FFORMATAU:**
Ar gael ar gyfer **Facebook_1200x1200, Facebook Llorweddol_1200x628** a **Twitter_1024x512**

SUT I DDEFNYDDIO EIN HASEDAU

# #DiolchIChi

## Fflach Gornel a Baner

Rydym wedi darparu 'fflach gornel' i helpu lledaenu'r gair. Mae hon yn troshaenu'n gyfleus ar luniau yn yr un modd â'r ffrâm gymdeithasol.

Mae'r Faner gymdeithasol wedi'i dylunio i gael ei gosod yn rhwydd ar unrhyw lun sgwâr (cymhareb 1:1).

**CYMORTH DEFNYDDIOL:**

- Gwnewch yn siŵr bod y fflach gornel yn cael ei dangos yn glir ar frig y llun yn y cornel chwith, gyda'r neges a'r logo'n weladwy yn glir.

- Gellir arddangos y faner gymdeithasol ar naill ai frig neu waelod llun sgwâr.







**FFORMATAU:**
**Baner_Gymdeithasol_1200x 200** a **Fflach Gornel_831x355**

# SUT I DDEFNYDDIO EIN HASEDAU
# #DiolchIChi

## Cardiau Post Cymdeithasol

Rydym wedi creu ystod o gardiau post cymdeithasol ar gyfer Facebook a Twitter, gyda nifer o negeseuon i chi ddewis ohonynt.

Gellir llwytho'r rhain i fyny i'ch sianelau cyfryngau cymdeithasol yn rhwydd i'ch helpu dathlu'r hyn rydych wedi'i gyflawni eleni.

### CYMORTH DEFNYDDIOL:

-Daw'r rhain mewn parau cyfatebol ar gyfer Facebook a Twitter, defnyddiwch y maint cywir i bob un.

- Maent yn hawdd i'w llwytho i fyny fel llun ar linell amser eich dwy sianel gymdeithasol - cofiwch ychwanegu #DiolchIChi.




**FFORMATAU:**
Ar gael ar gyfer **Facebook _1200x 1200** a **Twitter _1024x512**